

# Cyngor Cymuned Llanycil.

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, Tachwedd 10fed 2015 yn Neuadd Maesywaen. Yn bresennol oedd Geraint Davies (Cadeirydd), Euros Puw, Geraint Jones, Gwilym Davies, Arwel Davies, Gwynfryn Williams, Cyng. Elwyn Edwards a'r cler.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gwynedd Jones, Rhys Richards a Jean Roberts. Cydymdeimlwyd a Jean Roberts a'r teulu yn dilyn eu profedigaeth yn ddiweddar. Estynnwyd llongyfarchiadau i Geraint a Rachael Davies ar enedigaeth eu merch fach yn ddiweddar.

Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, a chafwyd hwy yn gywir.

## **Datgan Buddiant.**

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

## **Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.**

### Llythyr o ddiolch.

Derbyniwyd llythyr o ddiolch gan swyddogion Capel Talybont am y cyfraniad ariannol a dderbyniwyd.

## **Ymateb i'r cwynion a anfonwyd i Gyngor Gwynedd:-**

### Dwr yn casglu ar y A494 ger Abercelyn, Llanycil, Bala.

Derbyniwyd cadarnhad bod y safle wedi cael ei glirio ac am gael ei fonitro yn ystod y gaeaf.

## **Gohebiaeth.**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

### a) Cyngor Gwynedd

i) Derbyniwyd llythyr yn egluro bwriad y Cyngor i ddileu'r gwasanaeth darparu biniau halen yn yr ardal ar ôl diwedd mis Mawrth 2015 er mwyn arbed arian. Cafwyd trafodaeth am yr effaith y byddai hyn yn cael ar ddiogelwch y gyrwyr a oedd yn defnyddio ffyrdd gwledig yr ardal. Cytunwyd yn unfrydol i ysgrifennu yn nol i ddatgan gwrthwynebiad cryf y Cyngor Cymuned i'r toriadau.

ii) Derbyniwyd cais i anfon gwybodaeth a fyddai o gymorth i'w arolwg o bobl sy'n cysgu ar y stryd yng Ngwynedd.

iii) Ail strwytho'r Gwasanaeth Cofrestru yn Nwyfor a Meirionnydd – derbyniwyd llythyr yn cadarnhau oherwydd y toriadau ariannol roedd Cyngor Gwynedd yn eu hwynebu nid oedd posib newid eu penderfyniad i ddileu'r gwasanaeth yn Y Bala.

iv) Rhaglen Waith yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol ar gyfer mis Tachwedd.

### b) Amrywiol

i) Groundwork – Gwybodaeth am y cynllun arian cymunedol gan Tesco.

ii) Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol – Gwybodaeth am y newidiadau yng nghydabyddiaeth ariannol aelodau Cynghorau Cymuned a Thref.

iii) Un Llais Cymru – Llythyr yn ein hysbysu bod cyfarfod nesaf Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn Pafiliwn Dolgellau ar y 25/11/15.

iv) Llywodraeth Cymru – copi o 'Newyddion Cynghorau Cymuned a Thref 2015'.

v) Parc Cenedlaethol Eryri – Gwahoddiad i'w noson gyda'r Cynghorau Tref a Chymuned.

### **Materion Ariannol.**

#### Adroddiad Ariannol - monitro derbyniadau a thaliadau.

Cyflwynodd y clerc yr adroddiad ariannol i diwedd Medi a chafwyd yn gywir.

#### Swyddfa Archwilio Cymru Archwiliad Blynyddol.

Derbyniwyd llythyr yn ein cyngori o'r newidiadau i drefniadau archwilio cynghorau cymuned a thref ar gyfer archwiliad 2015-16.

Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

- i) Clerc (Cyflog Gorff-Medi)
- ii) Pum Plwy Penllyn (cyfraniad blynyddol)

Derbyniwyd ceisiadau ariannol gan Eisteddfod Llangollen, Y Groes Goch Prydeinig ac Eisteddfod Talybont. Cytunwyd i'w trafod gyda gweddill y ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.

### **Materion Lleol.**

#### Clirio ffosydd.

Gofynnwyd i'r clerc gysylltu â Chyngor Gwynedd i'w hysbysu bod amryw o ffosydd o gwmpas yr ardal angen eu clirio, yn benodol y rhai ar ffordd Arenig ger Noddfa a Pant Rhedydd, rhiw Parc a Pont Ffrydan.

#### Pont droed Maes Mathew, ger Blaen Cwm Uchaf, Parc.

Gofynnwyd i'r clerc gysylltu â'r Parc Cenedlaethol i'w hysbysu bod y bont angen ei thrwsio.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Ionawr 12fed yn Neuadd Maesywaen am 8.00y.h.**